Y dewis anoddaf roedd **Catrin** erioed wedi gorfod ei wneud oedd dewis lliw ei chast. Dangosodd y nyrs rhestr ddi-ri o liwiau gwahanol roedd **Catrin** yn gallu dewis ohonynt.

Roedd y rhestr yma yn cynnwys; **glas**, **gwyrdd**, **pinc**, **porffor**, **coch** ac **oren**. Ar ôl ystyried y peth yn ofalus iawn, oherwydd dyma oedd y dewis anoddaf i **Catrin** erioed ei wneud wedi'r cyfan, penderfynodd ar y lliw **coch**!

Yn gynharach y bore hwnnw roedd **Catrin** wedi bod yn reidio'i **beic** yn y parc. Reidiodd yn gyflymach a chyflymach ac roedd hi ar fin mynd rownd cornel siarp pan, yn sydyn, gollodd ei gafael ar y **beic** a chwympo i'r llawr gan lanio ar ei braich dde.



**"Aaaaaaawwwwwww!"**

Sgrechiodd **Catrin** lond ei hysgyfaint nes i'w rhieni redeg draw ati a'i chludo ar ras i'r ysbyty.

Bellach, roedd ei braich dde wedi'i gorchuddio mewn cast **coch** ac roedd hi'n edrych ymlaen at ei ddangos i'w ffrindiau yn yr ysgol.




Cyn pen dim roedd y dosbarth cyfan wedi llofnodi'r cast, gan gynnwys ei ffrindiau gorau **Megan**, **Osian**, ac **Elen** a oedd hefyd wedi addurno'r cast mewn **blodau**, **sêr** a **chalonnau**.

Un diwrnod, dechreuodd braich dde **Catrin** gosi.

Ond roedd hi methu cyrraedd y man i'w gosi oherwydd roedd y cast yn y ffordd. Roedd ei braich yn cosi cymaint roedd angen iddi ffeindio rhywbeth i'w helpu ei chosi.

Yn sydyn, ffeindiodd **Catrin** glip gwallt yn ei hystafell wely.
Yn is ac yn is aeth y clip gwallt i mewn i'r cast, roedd hi bron â chyrraedd y man...

**O, na!** Roedd hi wedi colli gafael ar y clip gwallt ac roedd e nawr yn sownd yn y cast.

Sut yn y byd roedd hi am gael y clip gwallt allan o'r cast?




Tro yma, ffeindiodd **Catrin** hanner can ceiniog tu ôl y teledu.
Yn is ac yn is aeth yr hanner can ceiniog i mewn i'r cast, roedd hi bron â chyrraedd y man...

**O, na!** Roedd hi wedi colli gafael ar yr hanner can ceiniog ac roedd hwnnw nawr yn sownd yn y cast.

Sut yn y byd roedd hi am gael y clip gwallt a'r hanner can ceiniog allan o'r cast?

Tro yma, ffeindiodd **Catrin** bensil ar fwrdd y gegin.
Yn is ac yn is aeth y pensil i mewn i'r cast, roedd hi bron â chyrraedd y man...

**O, na!** Roedd hi wedi colli gafael ar y pensil ac roedd hwnnw nawr yn sownd yn y cast.

Sut yn y byd roedd hi am gael y clip gwallt, yr hanner can ceiniog a’r pensil allan o’r cast?

Tro yma, ffeindiodd **Catrin** bren mesur bach o dan y soffa.

Yn is ac yn is aeth y pren mesur i mewn i’r cast, roedd hi bron â chyrraedd y man...

**O, na!** Roedd hi wedi colli gafael ar y pren mesur ac roedd hwnnw nawr yn sownd yn y cast.




Doedd dim ffordd o gael y clip gwallt, hanner can ceiniog, pensil neu’r pren mesur allan o’r cast. Felly, bob tro roedd **Catrin** yn symud ei braich dde byddai’r cast yn gwneud sŵn **‘clinc-clanc’**, **‘clinc-clanc’**.

Dim ond un peth oedd amdani. Aros nes ei hapwyntiad nesaf gyda’r nyrs yn yr ysbyty i gael tynnu’r cast.

Diolch i’r drefn, dim ond wythnos oedd ar ôl i aros, felly, dim ond am yr wythnos yna roedd rhaid i **Catrin** gerdded o gwmpas gyda’r clip gwallt, hanner can ceiniog, pensil a’r pren mesur yn ei chast.

Am yr wythnos honno roedd pawb yn gwybod ble roedd **Catrin** oherwydd y sŵn **‘clinc-clanc’**, **‘clinc-clanc’**.

Ar y diwrnod mawr o dynnu’r cast llifodd y clip gwallt, hanner can ceiniog, pensil a phren mesur allan o’r cast.




Chwarddodd y nyrs nerth ei phen ac ymunodd **Catrin**, ei mam a’i thad yn y chwerthin.



Y prynhawn hwnnw rhedodd **Catrin** draw at y parc gyda’i **beic**. Reidiodd yn gyflymach a chyflymach a phan gyrhaeddodd hi’r gornel siarp mi lwyddodd i fynd o’i chwmpas y tro hwn heb drafferth o gwbl!

**HWRÊ!**

Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans